eiriolaeth
advocacy

Y Rhaglen Edau Euraidd
The Golden Thread Programme

age Cymru

Creu Cymru oed gyfeillgar
Creating an age friendly Wales

# Cylchlythyr Eiriolaeth

*Hydref 2017 Rhifyn 7*

## *Eiriolaeth a Chynlluniau Rhanbarthol*

Yng Ngwanwyn 2017, cyhoeddodd y saith rhanbarth yng Nghymru eu hasesiadau poblogaeth, gan ganolbwyntio ar anghenion gofal a chymorth, ac anghenion cymorth gofalwyr ledled Cymru. Ers hynny, mae'r rhanbarthau wedi bod yn gweithio ar eu Cynlluniau Ardal (neu Gynlluniau Rhanbarthol), gan nodi'r ystod a'r lefel o wasanaethau y mae Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol yn bwriadu eu darparu neu eu trefnu mewn ymateb i'r adroddiad Asesiad Poblogaeth.

**Gogledd Cymru**

Comisiynodd Cydweithredfa Gwella Gofal Cymdeithasol a Lles Gogledd Cymru ymchwil i lais a rheolaeth dinasyddion yng Ngogledd Cymru (Wavehill, 2016) fel rhan o'i asesiad poblogaeth. Mae'r ymchwil hon yn cynnwys crynodeb o'r gwasanaethau eiriolaeth annibynnol ar draws Gogledd Cymru. Mae'r adroddiad yn argymell bod y rhanbarth yn gweithio'n agos gyda'r Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd (GTAP) ar unrhyw waith i gryfhau llais a rheolaeth, er mwyn osgoi unrhyw ddyblygu gyda gwaith GTAP ar eiriolaeth. Mabwysiadwyd yr argymhelliad hwn yn y brif ddogfen asesiad poblogaeth.

Cyhoeddodd Gogledd Cymru ei Gynllun Rhanbarthol drafft ar gyfer ymgynghori ym mis Awst 2017. Fe enwir Age Cymru fel y sefydliad arweiniol a GTAP fel y rhaglen arweiniol ar gyfer eiriolaeth oedolion yng Nghynllun Rhanbarthol drafft Gogledd Cymru. Cynhelir yr ymgynghoriad trwy arolwg ar-lein a bydd yn cau ar **31 Hydref 2017.**

Nid oes dyletswydd i ymgynghori ar Gynlluniau Ardal, a dim ond Gogledd Cymru sydd wedi cyhoeddi cynllun drafft hyd yn hyn cyn belled ag y gwyddom. Mae gofyniad i Gynlluniau Ardal gael eu cyhoeddi ym mis Ebrill 2018, i ymateb i ganfyddiadau'r adroddiad asesiad poblogaeth ac i adnabod y blaenoriaethau rhanbarthol, integredig sydd i'w datblygu gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

Fodd bynnag, mae eiriolaeth yn ymddangos mewn adroddiadau Asesiad Poblogaeth rhanbarthau eraill:

Mae **Asesiad Poblogaeth Caerdydd a'r Fro** yn argymell y dylai pobl hŷn gael mynediad i wahanol fathau o eiriolaeth. Mae'n nodi: patrwm gwasanaethau eiriolaeth yn ehangu eu cwmpas, gan ganolbwyntio llai ar bobl hŷn yn benodol, a chael nifer fwy o wasanaethau ar gael i bobl o grwpiau oedran ehangach; pryderon ymysg darparwyr eiriolaeth am eu harian hirdymor, ac amcangyfrif yr elusen *Aging Without Children* fod rhwng 1 o bob 4 a 1 o bob 5 o bobl hŷn heb blant, gyda chyfradd sylweddol uwch ymhlith pobl LGBT, a phobl ag anableddau.

Mae Cwm Taf wedi gweithio gyda'r Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd i gynnal hunanasesiad sylfaenol o drefniadau eiriolaeth yn y rhanbarth. Dangosodd yr hunanasesiad fod pob sefydliad ar gam datblygu gwahanol. Felly, cytunwyd bod pob sefydliad yn datblygu ei agwedd at eiriolaeth dros gyfnod o 6 mis ac y bydd TLG yn adolygu'r cynnydd ym mis Ionawr 2018. Adlewyrchir hyn yn ein Cynllun Ardal wrth iddo gael ei ddatblygu.

Parhad...

Mae **Gwent** wedi datgan y byddant yn cyflawni'r canlynol trwy'r Cynllun Ardal ar y cyd: sicrhau bod y ddarpariaeth eiriolaeth yn adlewyrchu'r blaenoriaethau a nodwyd ar draws yr asiantaethau partner; gweithio gyda'r Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd ar draws y rhanbarth trwy'r fforwm darparwyr rhanbarthol; cefnogi  comisiynu un gwasanaeth eiriolaeth ar y cyd i Wasanaethau Plant, dull gweithredu cytûn at ddarpariaeth eiriolaeth gyda phartneriaid y trydydd sector yn enwedig wrth hyrwyddo eiriolaeth annibynnol.

Nododd **Powys** yn eu hadroddiad Asesiad Poblogaeth restr hir o'r gwahanol fathau o wasanaethau eiriolaeth sy'n cael eu darparu yn y rhanbarth ar hyn o bryd. Yn ddiweddar, mae Gwasanaethau Plant Powys wedi arwain ac wedi cwblhau ymarfer ail-gomisiynu mewn perthynas ag eiriolaeth, gyda chontract newydd yn cael ei roi i Tros Gynnal Plant i ddarparu Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol i bob plentyn a pherson ifanc 0-25 oed sy'n cael mynediad i wasanaeth gan y Gwasanaethau Plant.

Mae **Bae'r Gorllewin** yn datgan bod y galw am Drefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid (DoLS) wedi cynyddu'n sylweddol ers 2013-2014 a'r dyfarniad "P v Cheshire & Cheshire West". Mae gan Ben-y-bont ar Ogwr a Chastell-nedd Port Talbot ôl-groniad o asesiadau DoLS sy'n aros i gael eu cwblhau. Fodd bynnag, mae Comisiwn y Gyfraith yn cynnig newid i sut mae DoLS yn cael ei weithredu yn y dyfodol. Nid yw'n hysbys ar hyn o bryd a fydd hyn yn fwy neu'n llai effeithiol. Mae Bae'r Gorllewin yn bwriadu parhau i weithio mewn ffordd amlasiantaethol i hyrwyddo atal ar draws pob maes gwasanaeth. Maent yn nodi'r angen i symleiddio mynediad at eiriolwyr i oedolion sydd mewn perygl, ac angen am fwy o wasanaethau eiriolaeth yn gyffredinol.

Yng **Ngorllewin Cymru**, darperir gwasanaethau eiriolaeth trwy gontract rhanbarthol a gomisiynwyd yn ddiweddar ar draws Canolbarth a Gorllewin Cymru (gan gynnwys Powys). Awgrymodd ymchwil gan Age UK bod angen teilwra gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth generig i ateb anghenion pobl hyn sy'n debygol o gynnwys cyswllt cymdeithasol a gofal, cyllid a thai, ac iechyd a chymorth ymarferol. Gallai gwasanaethau Gwybodaeth, Cyngor ac Eiriolaeth wedi'u targedu fod yn briodol i'r bobl 65 oed a throsodd hynny sy'n ymddeol i'r rhanbarth. Un argymhelliad yn yr adroddiad asesiad Poblogaeth yw sicrhau bod gwasanaethau eiriolaeth cymunedol effeithiol ar gyfer oedolion hyn ar gael ac yn hygyrch ar draws y rhanbarth.

Bydd y tîm GTAP yn cadw golwg ar ddatblygiad Cynlluniau Ardal, a byddwn yn rhoi diweddariadau i chi pan fydd mwy o fanylion ar gael.

**Valerie Billingham**
**Swyddog Datblygu ar gyfer Comisiynu (Gogledd Cymru),**
**Age Cymru**

## *Cefnogi Comisiynu ac Arfer Da Eiriolaeth: Rhestr Adnoddau*

Rydym yn falch o gyflwyno rhestr adnoddau ddefnyddiol y gofynnwyd amdani gan  y rhanddeiliaid. Mae'r rhestr hon yn dwyn ynghyd deddfwriaeth, ymchwil, arfer da, gwybodaeth a dolenni i wefannau defnyddiol i gefnogi comisiynwyr a darparwyr ledled Cymru.

Gobeithiwn y bydd y wybodaeth yn ddefnyddiol i chi a byddwn yn parhau i ddiweddaru'r rhestr trwy gydol oes y rhaglen.

Mae un adnodd wedi'i ychwanegu at y rhestr, mae wedi'i amlygu mewn coch.

Age Cymru | Rhestr Adnoddau Cefnogi Comisiynu ac Arfer Da Eiriolaeth

## *Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol (EBA) ac Iechyd*

*Mae Cod Ymarfer Rhan 10 yn canolbwyntio ar ddarparu eiriolaeth broffesiynol annibynnol at ddibenion sy'n ymwneud â gofal a chymorthcymdeithasol .*

*Sut mae EBA yn rhyng-gysylltu â'r gwasanaethau iechyd?*

Mae'r Cod Rhan 10 yn cynnwys nifer o gamau y mae'n rhaid i awdurdodau lleol a byrddau iechyd eu cymryd gyda'i gilydd. Mae hyn yn cynnwys asesu ystod a lefel gwasanaethau eiriolaeth yn eu hardal i lywio trefniadau comisiynu ar y cyd a phartneriaethau ar gyfer darparu gwasanaethau eiriolaeth, a sicrhau a hyrwyddo eu hargaeledd fel rhan o'u portffolio o wasanaethau ataliol, gan gydnabod ac ymateb i'r posibilrwydd o orgyffwrdd o ran trefniadau (39, 43, 72, 78, 88).

Mae partneriaeth ac integreiddio yn egwyddorion craidd o'r Ddeddf Gwasanaeth Cymdeithasol a Llesiant (GCaLl). Disgwylir i awdurdodau lleol a byrddau iechyd gydweithio ar Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol sy'n gorfod "ystyried pa drefniadau ychwanegol neu amgen y gall fod eu hangen i integreiddio gwasanaethau i wella canlyniadau i unigolion a/ neu wneud defnydd mwy effeithiol o adnoddau". Mae atal yn egwyddor graidd arall ac yn berthnasol i iechyd a gofal cymdeithasol.

Nododd Cylchlythyr Iechyd Cymru (2016) 028 a gyhoeddwyd gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio Llywodraeth Cymru: "Mae'r cod ymarfer eiriolaeth yn nodi cyfrifoldebau awdurdodau lleol i sicrhau cymorth eiriolaeth er mwyn galluogi oedolion a phlant i allu mynegi eu barn, eu dymuniadau a'u teimladau mewn perthynas ag arfer dyletswyddau o dan y Ddeddf. Mae'r cod yn cydnabod y cyfrifoldebau a rennir ar gyfer darparu cefnogaeth eiriolaeth ar draws y GIG. Mae'r cod felly'n atgyfnerthu'r cyfleoedd i gydlynu trefniadau comisiynu drwy drefniadau partneriaeth ffurfiol ac anffurfiol o dan Ran 9 o'r Ddeddf."

**Eiriolaeth Gallu Meddyliol Annibynnol (EGMA), Eiriolaeth Iechyd Meddwl Annibynnol (EIMA) ac Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol (EBA)**

Yn yr amgylchedd iechyd, mae eiriolaeth yn tueddu i fod yn gysylltiedig ag iechyd meddwl ac anawsterau dysgu. Ond mae cymhwyster i gael EGMA /EIMA yn eithaf cul ac mae rôl EBA yn llawer ehangach. Yn ychwanegol at y rhestr helaeth o swyddogaethau lle mae'n rhaid i awdurdodau lleol ystyried anghenion unigolion am gefnogaeth eiriolaeth (adran 50 o God Rhan 10), mae pennod 11 yn nodi rhai o'r amgylchiadau pan fydd angen cynyddu anghenion unigolion am wasanaethau eiriolaeth, gan gynnwys wrth wneud penderfyniadau a fydd yn cael effaith sylweddol ar fywyd o ddydd i ddydd gan gynnwys:

- pan fo ffactorau allanol yn effeithio ar drefniadau gofal a chymorth, er enghraifft, methiant darparwyr, cau cartrefi gofal, newidiadau mewn trefniadau rheoli neu berchnogaeth mewn cartrefi gofal
- wrth baratoi i adael yr ysbyty a dychwelyd i'r gymuned.

Mae rhai enghreifftiau ychwanegol o bryd y gallai eiriolaeth gael ei hystyried yn y gwasanaethau iechyd yn cynnwys:

- wrth leihau achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal o'r gwasanaeth iechyd i'r gwasanaethau cymdeithasol
- wrth gynllunio a chaniatáu i rhyddhau claf o'r ysbyty (e.e. i weithrediadau)
- yn y ddarpariaeth i bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl /galluedd meddyliol sydd y tu allan i feini prawf EGMA / EIMA
- wrth gefnogi pobl i wneud cwynion am wasanaethau iechyd (eiriolaeth Cyngor Iechyd Cymuned)
- ar adegau pontio trwy ddigwyddiadau sy'n newid bywyd
- pan nad oes gan gleifion lais
- pan fo gofal a chymorth yn cael ei ddarparu gan nyrs ardal / adsefydlu / gofal sylfaenol a gwasanaethau cymdeithasol
- pan fo anghydfod ynghylch cyllid Gofal Iechyd Parhaus

Parhad...

- pan fo teuluoedd yn anghytuno â phenderfyniadau buddiannau gorau y mae'r unigolyn yn cytuno â hwy.

Os yw'r gwasanaethau cymdeithasol yn gysylltiedig â chlaf, byddai'n amlwg i'r ymarferydd, mewn partneriaeth â'r unigolyn, ddilyn y broses o wneud penderfyniadau cyfeirio a phenderfynu a yw EBA yn briodol.

Os nad yw'r gwasanaethau cymdeithasol yn gysylltiedig, ond bod ymarferydd iechyd yn teimlo y byddai'r claf yn elwa ar eiriolaeth, efallai y bydd angen iddynt allu cyfeirio'r claf am EBA. O ystyried hyn, dylai contractau EBA ganiatáu darparu EBA mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol. Yng Ngwent, mae yna ddau gontract EBA gyda manylebau gwasanaeth tebyg ar waith ar hyn o bryd. Cafodd un ei dendro gan Gyngor Dinas Casnewydd i ddarparu EBA generig (ac eithrio iechyd meddwl). Cafodd y llall ei dendro gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan i ddarparu EBA i ddefnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl.

**Beth yw gofal a chymorth?**
Ar hyn o bryd, mae gofal a chymorth yn cael ei ddeall yn gyffredinol fel cyfeirio at y gwasanaethau cymdeithasol, yn bennaf mewn lleoliad gofal cartref ond hefyd mewn cartrefi nyrsio a gofal. Fodd bynnag, mae gofal a chymorth wedi'i gysylltu'n uniongyrchol â lles. Yn ogystal â "Gwarchod rhag camdriniaeth ac esgeulustod" a "Sicrhau hawliau a hawliadau", mae'r diffiniad o les yn y Ddeddf yn cynnwys "Iechyd corfforol a meddyliol a lles emosiynol".

Mae Adran 50 o God Rhan 10 yn cynnwys "Hyrwyddo integreiddio gofal a chymorth gyda gwasanaethau iechyd" ac yn cyfeirio at adran 165 o'r Ddeddf. Mae’r adran honno yn cyfeirio at "ddarpariaeth sy'n gysylltiedig ag iechyd" a allai gael effaith ar iechyd unigolion ond nad ydynt yn (a) gwasanaethau iechyd a ddarperir fel rhan o'r gwasanaeth iechyd, neu (b) gwasanaethau a ddarperir wrth arfer swyddogaethau'r gwasanaethau cymdeithasol.

A ellid deall EBA fel "darpariaeth sy'n gysylltiedig ag iechyd"?

At hynny, mae'r argymhellion a gynhwysir yn Diogelu ac Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed yng Nghymru (2010) yn cynnwys:

16. Dylai sefydliadau'r GIG sicrhau bod y rhai hynny sy'n agored i niwed yn cael llais, drwy sefydlu mecanweithiau sy'n eu cefnogi ac yn eu galluogi i godi pryderon. Dylai mecanweithiau o'r fath gynnwys trefniadau eiriolaeth a chyfleoedd i drafod problemau gydag unigolion heb i'w gofalwyr neu eu perthnasau fod yn bresennol. Mae angen gwasanaethau cyfieithu digonol i wneud hyn.

19. Mae'n rhaid i sefydliadau'r GIG ofalu bod defnyddwyr gwasanaeth a'u gofalwyr neu eu teuluoedd yn cael cyfle i gyfrannu at brosesau diogelu oedolion a'u bod yn cael gwybod beth sy'n digwydd.

**Casgliad**
Ar hyn o bryd mae cleifion yn gallu cael mynediad i EBA trwy dimau integredig neu dimau gwaith cymdeithasol mewn ysbytai, sydd â rôl bwysig wrth sicrhau bod cleifion ag anghenion gofal a chymorth yn cael eu hasesu ar gyfer eiriolaeth.

Gydag iechyd a gofal cymdeithasol yn dod yn fwy integredig, efallai bod achos dros awgrymu y dylid deall y term "gofal a chymorth" mewn perthynas â'r ddau wasanaeth, ac y dylai cleifion a defnyddwyr gwasanaeth allu cael mynediad i EBA yn y maes iechyd a lleoliadau gofal cymdeithasol.

Byddai ymestyn EBA i'r GIG yn gofyn am gyllid ychwanegol sylweddol. Ond gydag elw cymdeithasol ar fuddsoddiad posibl o tua £6- £8 am bob £1 a wariwyd (fel y dangoswyd gan asesiad effaith gan yr Adran Iechyd o Ddeddf Gofal Lloegr, ac yn fwy diweddar gan gwmni cyfrifyddu Ernst & Young) mae'r achos dros ddarparu EBA mewn iechyd yn haeddu ystyriaeth ar sail economaidd yn ogystal ag o ran hyrwyddo llais, dewis a rheolaeth.

**Paul Swann,**
**Swyddog Datblygu ar gyfer Comisiynu, Age Cymru**

Mae Canolfan Cydweithredol Cymru wedi darparu ystod gynhwysfawr o wasanaethau i gymunedau ers 35 mlynedd, gan gynnwys cefnogaeth arbenigol i gwmnïau cydweithredol, mentrau cymdeithasol a busnesau sy'n eiddo i weithwyr.

## Cydweithredu i Ofalu

Ym mis Mehefin 2016, lansiwyd ein gwasanaeth 'Cydweithredu i Ofalu', prosiect tair blynedd wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru, i helpu i gyflawni Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Y nod yw amrywio gwasanaethau gofal a lles, bod yn gydweithredol ac yn gynhwysol, a sicrhau bod pobl yn gwneud penderfyniadau am eu bywydau eu hunain.

Mae Cydweithredu i Ofalu yn gweithio gyda:

- elusennau, awdurdodau lleol, byrddau iechyd, cymdeithasau tai a sefydliadau gwirfoddol i'w cynorthwyo i weithio gyda phobl sy'n defnyddio gwasanaethau, i benderfynu sut y maent yn cael eu cynllunio a'u rhedeg,
- sefydliadau i adnabod cwmnïau cydweithredol a mentrau cymdeithasol a all ddarparu gwasanaethau fel y nodir yn y Ddeddf,
- a darparwyr gwasanaethau presennol i adnabod cyfleoedd ar gyfer cydweithio ag asiantaethau statudol, darparwyr gwasanaethau eraill a dinasyddion.

Rydym yn hyrwyddo ac yn annog partneriaethau newydd er mwyn datblygu a chryfhau gofal a lles yng Nghymru.

## Consortiwm ar gyfer gwasanaethau eiriolaeth?

Rydym yn cynnig cefnogaeth am ddim i sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau yn unol â'r Ddeddf, gan gynnwys gwasanaethau eiriolaeth, gan eu galluogi i ffurfio consortia. Gall hyn helpu sefydliadau i gynyddu eu graddfa ac ystod o wasanaethau arbenigol er mwyn cystadlu am gontractau awdurdodau lleol a chyfleoedd masnachol eraill.

Rydym yn cynorthwyo sefydliadau i ffurfio cytundebau ar gyfer:

- rhannu adnoddau cefn swyddfa,
- lleihau costau trwy brynu hyfforddiant, offer a deunyddiau marchnata ar y cyd,
- a, cysoni gwasanaethau fel eu bod yn fuddiol i'r aelodau'r consortiwm a'r bobl sy'n defnyddio eu gwasanaethau.

Rydym yn gwneud hyn trwy ddarparu cefnogaeth i ddod â phartneriaid at ei gilydd a gweithio gyda hwy i ddatblygu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a Chytundebau ar y Cyd pwrpasol.

## Cydweithredu i Ofalu yn cefnogi partneriaid i ffurfio consortiwm yn ne-ddwyrain Cymru

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â'r Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd a'r Cyngor Gwirfoddol Sirol (CVC) i helpu i ddatblygu fforwm ar gyfer gwasanaethau eiriolaeth ar y cyd. Mae hyn yn golygu dwyn ynghyd yr awdurdod lleol, CVC ac ystod o ddarparwyr eiriolaeth yn yr ardal. Mae'r grŵp yn creu offeryn monitro ar y cyd i ddylanwadu ar strategaethau comisiynu'r awdurdod lleol, a fydd yn agor y potensial ar gyfer cael manyleb eiriolaeth ar draws y rhanbarth ehangach wedi'i chyd-ddylunio.  Gobeithio y bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at greu consortiwm ffurfiol i ddarparu gwasanaethau.

Yng ngorllewin Cymru, rydym yn gweithio gyda thri darparwr eiriolaeth presennol i ddatblygu consortiwm cydweithredol, i baratoi ar gyfer cyfleoedd eiriolaeth cydweithredol rhanbarthol.

Os oes gennych ddiddordeb mewn dysgu mwy, gallwch gysylltu ag un o'r tîm Cydweithredu i Ofalu trwy 0300 111 5050 neu care@wales.coop.

Am ragor o wybodaeth ewch i'n gwefan www.wales.coop/care

## *Cynigion newydd i drawsnewid gofal drwy godi safonau a rhoi statws uwch i waith gofal*

Mae cynigion i helpu i drawsnewid safonau gofal a chodi statws y gweithlu gofal cymdeithasol wedi eu cyhoeddi. Maen nhw wedi'u gosod allan mewn ymgynghoriad, Gweddnewid Gofal yn yr 21ain ganrif, gan Gofal Cymdeithasol Cymru, y sefydliad cenedlaethol newydd sy'n gyfrifol am arwain gwelliant mewn gofal.

Mae'r cynigion yn unol â Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) a chydnabyddiaeth Llywodraeth Cymru bod gofal cymdeithasol o bwysigrwydd strategol cenedlaethol.

Bydd y newidiadau arfaethedig yn sail i'r cynllun strategol pum mlynedd ar gyfer Gofal Cymdeithasol Cymru, a fydd yn anelu at gyflawni:

- i'r cyhoedd: hyder bod gan weithwyr y sgiliau priodol; eglurder am y safonau y dylid eu disgwyl a gwybodaeth am wasanaethau gofal
- i gyflogwyr staff gofal: ymgyrch cenedlaethol i ddenu gweithwyr newydd; cynllunio i'r gweithlu i ddiwallu anghenion y dyfodol; adnoddau i helpu staff i weithio i safonau uchel a hyfforddiant ar gyfer meysydd blaenoriaeth megis gofal a chymorth yn y cartref, dementia a phlant mewn gofal
- i staff gofal: strwythur gyrfa; hyfforddiant ansawdd uchel i helpu eu datblygiad a'u gyrfa; mynediad at adnoddau i'w helpu yn eu gwaith beunyddiol; mwy o ddealltwriaeth gan y cyhoedd o'r gwaith cymhleth maen nhw'n ei wneud a statws uwch drwy fod yn rhan o broffesiwn sy' wedi'i reoleiddio.

Mae'r cynigion ymgynghori'n golygu:

- bydd pob gweithiwr gofal cartref, sy'n gorfod cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru rhwng 2018 a 2020, yn cael ei gefnogi i ennill cymwysterau priodol o fewn y tair blynedd gyntaf o gofrestru. Mae canran fawr o weithwyr eisoes yn meddu ar y cymwysterau iawn.
- bydd ffioedd i bobl sydd eisoes ar y Gofrestr Gweithwyr Gofal Cymdeithasol yn cynyddu am y tro cyntaf mewn mwy na 10 mlynedd mewn proses raddol dros y pedair blynedd nesaf
- fersiwn ddiwygiedig o'r cod ymarfer proffesiynol i gyflogwyr staff gofal, fydd yn diogelu'n well staff gofal a'r bobl sy'n dibynnu arnynt
- newidiadau i'r rheolau sy'n gadael i bryderon difrifol am addasrwydd gweithwyr i ymarfer i gael eu cyfeirio'n syth at wrandawiad pwyllgor.

Bydd yr ymgynghoriad, Gweddnewid Gofal yn yr 21ain ganrif, ar agor am 12 wythnos ac mae gennych tan 5pm ar **16 Hydref 2017** i ddweud eich dweud.

Dysgwch fwy am yr ymgynghoriad a chael dweud eich dweud.

## *Gwybodaeth a Chanllawiau ar Gam-drin Domestig: Diogelu Pobl Hŷn yng Nghymru*

Mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig, a thrais rhywiol yn faterion sy'n gwneud niwed pellgyrhaeddol, a gall eu presenoldeb effeithio ar unrhyw aelod o'n cymdeithas. Gallant fod hyd yn oed yn fwy niweidiol i unigolyn sydd ag anghenion cymhleth neu sy'n agored i niwed.

Mae'r dystiolaeth sy'n deillio o achosion troseddol, Dynladdiadau Domestig ac Adolygiadau o Achosion Difrifol hanesyddol, yn dangos bod y cam-drin domestig sy'n cael ei ddioddef gan bobl hŷn yn aml heb ei adnabod. Mae hynny'n golygu nad yw mesurau diogelu neu gefnogi wedi eu rhoi ar waith i leihau'r risg o niwed.

Cafodd y canllawiau eu creu mewn partneriaeth â Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Byddant yn galluogi gweithwyr proffesiynol yng ngwasanaethau cyhoeddus Cymru i weithio'n fwy effeithiol gyda phobl hŷn sy'n dioddef cam-drin domestig, neu sydd wedi ei ddioddef yn y gorffennol.

Gwybodaeth a Chanllawiau ar Gam-drin Domestig: Diogelu Pobl Hŷn yng Nghymru

## Adroddiad yn darganfod bod defnydd 'anghywir' o'r Ddeddf Galluedd Meddyliol yn thema allweddol mewn adolygiadau diogelu oedolion

Gwelodd dadansoddiad o 27 adolygiad diogelu oedolion broblemau gydag asesiadau galluedd gwael ac absenoldeb penderfyniadau buddiannau gorau.

Mae adroddiad ar ganfyddiadau adolygiadau diogelu oedolion (SARs) wedi dod i'r casgliad bod yna "diffygion sylfaenol" yn y modd y mae'r Ddeddf Galluedd Meddyliol yn cael ei deall a'i defnyddio'n ymarferol.

Canfu dadansoddiad o 27 SAR a gwblhawyd gan awdurdodau yn Llundain bod galluedd meddyliol yn faes ymarfer cyffredin lle'r oedd gwersi angen cael eu dysgu. Canfu'r dadansoddiad y cyfeiriwyd at alluedd meddyliol mewn 21 o'r 27 adroddiad, ac roedd llawer o'r dysgu o gwmpas asesiadau galluedd coll neu asesiadau galluedd wedi'u perfformio'n wael, absenoldeb penderfyniadau buddiannau gorau, a diffyg amheuaeth a herio penderfyniadau.

Gwnaeth pedwar o'r adolygiadau sylwadau ar yr anawsterau roedd ymarferwyr yn eu hwynebu wrth ddod i benderfyniad "hyderus neu gytûn" mewn asesiad galluedd meddyliol, dywedodd yr adroddiad.

Cyfeiriodd dau arall at y defnydd o wasanaethau eiriolaeth fel maes dysgu sylweddol. Yn y ddau achos, gwnaed atgyfeiriad am eiriolwr annibynnol yn rhy hwyr i fod yn effeithiol wrth gefnogi'r unigolion, nad oedd ganddynt unrhyw ffynhonnell arall o gymorth i gymryd rhan mewn penderfyniadau.

Cafwyd "sylw achlysurol" mewn un achos lle'r oedd galluedd meddyliol wedi cael sylw da, dywed yr adroddiad, ond roedd y mwyafrif o dystiolaeth yn nodi "diffygion sylfaenol" yn y modd mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn cael ei deall a'i defnyddio'n ymarferol.

Roedd materion arfer cyffredin eraill yn cynnwys:

- asesiadau risg annigonol neu absennol, neu fethiant i adnabod risgiau cynyddol.
- diffyg gofal personol.
- methiant i gynnwys gofalwyr a chydnabod eu hanghenion nhw.
- diffyg dealltwriaeth neu chwilfrydedd am hanes ac ymddygiad pobl.
- methiant i fod yn gyson a hyblyg wrth weithio gyda phobl sy'n amharod i ymgysylltu â gwasanaethau, a chymryd yr amser i adeiladu ymddiriedaeth.

**'Diffyg adnoddau'**

Cynhyrchwyd yr adroddiad gan gangen Llundain o Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion, a chwblhawyd yr holl SARs ar ôl i'r Ddeddf Gofal ddod i rym ym mis Ebrill 2015. Edrychodd hefyd ar ffactorau sefydliadol a oedd yn dylanwadu ar sut roedd ymarferwyr yn gweithio, a oedd yn cynnwys cofnodi, adnoddau, goruchwyliaeth a chefnogaeth, lefelau staffio, a llythrennedd cyfreithiol.

Canfu'r dadansoddiad bod 19 o'r 27 adolygiad yn nodi materion yn ymwneud â sut roedd staff yn cofnodi gwybodaeth, neu gyda'r systemau cofnodi a phrosesau a ddarparwyd gan eu sefydliad. Mewn rhai achosion, dywedodd yr adroddiad, bod cofnodion ar goll, ac mewn achosion eraill, roedd rhy ychydig o wybodaeth wedi'i chofnodi neu wybodaeth nad oedd yn gyfoes. Golygai hyn nad oedd pryderon bob amser yn cael eu codi.

Mewn 13 o'r 27 achos, roedd diffyg adnoddau hefyd wedi cael effaith. Cyfeiriodd yr adroddiad at un achos lle'r oedd gofal cymdeithasol oedolion wedi gwrthod cyllido pecyn gofal i rywun, er nad oedd y lefel gymorth bresennol yr oeddent yn ei chael yn diwallu eu hanghenion.

Parhad...

Mewn achos arall, roedd "effaith mesurau llymder" ar y cartref gofal wedi cyfyngu ar y cyfleoedd oedd ar gael i ddyn, a oedd yn ei dro wedi effeithio ar ei ansawdd ei fywyd.

Roedd bron pob un o'r SARs yn nodi pryderon ynghylch sut roedd asiantaethau wedi cydweithio.

**'Camdriniaeth sefydliadol'**

Roedd yr adroddiad hefyd yn dadansoddi natur a nodweddion y SARs.

Canfu bod mwy o achosion yn ymwneud â dynion ac ychydig o dan hanner yr adolygiadau'n ymwneud â phobl oedd yn byw mewn lleoliad grŵp, gofal preswyl yn bennaf.

Canfu hefyd mai camdriniaeth sefydliadol oedd y math mwyaf cyffredin o gamdriniaeth a oedd yn bresennol yn yr adolygiadau. Diffinnir hyn gan ganllawiau statudol y Ddeddf Gofal, fel cynnwys esgeulustod ac arfer gwael o fewn lleoliad gofal, neu mewn perthynas â gofal a ddarperir o fewn cartref unigolyn

Yr ail fath o gamdriniaeth fwyaf cyffredin oedd hunan-esgeulustod, a oedd yn ôl yr adroddiad yn atgyfnerthu'r canfyddiadau ymchwil diweddar am gymhlethdodau a heriau'r agwedd hon o ddiogelu.

Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod dysgu o adolygiadau amddiffyn oedolion yn "anaml iawn wedi'i gyfyngu i ymarfer gwael gan yr ymarferwyr sy'n gysylltiedig yn unig". Yn hytrach, roedd canfyddiadau'r 27 adroddiad yn dangos bod gwendidau yn bodoli ym mhob rhan o'r system a bod heriau strwythurol, cyfreithiol, economaidd a pholisi yn effeithio ar staff ar draws yr holl asiantaethau a bwrdeistrefi.

Community Care online

## Papur Briffio ac Ystadegau ar gyfer Cymru gan yr elusen *Ageing without Children* (AWOC)

Mae *Ageing without Children* (AWOC) yn sefydliad sy'n ymroddedig i gefnogi ac ymgyrchu dros bobl dros 50 oed sydd heb blant trwy ddewis, amgylchiad, anffrwythlondeb, profedigaeth, dieithriad, pellter neu unrhyw reswm arall. Mae AWOC wedi'i leoli yn ne orllewin Lloegr ond mae'n gweithio ledled y DU.

Eisoes mae yna 1 filiwn o bobl dros 65 oed heb blant a bydd y ffigwr yn dyblu i 2 filiwn erbyn 2030. Mae mwy o bobl hŷn hefyd yn sengl am amrywiaeth o resymau ac maent yn byw'n hirach heb blant neu rwydwaith cefnogi teulu estynedig. Bydd effaith hyn yn sylweddol; ni fydd gwasanaethau gofal bellach yn gallu dibynnu ar gymorth teuluol ac mae'n debygol y bydd awdurdodau lleol yn cael eu gadael i reoli'r mater ar lefel leol.

Er mwyn helpu cyrff statudol, sefydliadau'r trydydd sector a chwmnïau preifat sy'n gweithio gyda phobl hŷn i ddeall mwy am y mater hwn, mae AWOC wedi cynhyrchu papur briffio ar heneiddio heb blant yn edrych yn fwy manwl ar y rhesymau gwahanol pam fod cymaint o bobl yn heneiddio heb blant, effaith hyn ar unigolion, cymdeithas a gwasanaethau, ac yn cynnig atebion i fynd i'r afael â'r mater.

Mae AWOC hefyd wedi ysgrifennu blog ar gyfer cyfres blogiau *Doing Care Differently* y sefydliad Independent Age  yn trafod dylunio gwasanaethau gofal nad ydynt yn dibynnu ar deulu a allai fod o ddiddordeb i chi.

Gweler isod y dolenni i'r blog a'r papur briffio:

Blog AWOC

Papur Briffio ac Ystadegau ar gyfer Cymru *Ageing without Children*

**Kirsty Woodard, Sylfaenydd**
**Ageing without Children**

## *Cyhoeddiadau defnyddiol*

### Cyhoeddi adroddiad eiriolaeth newydd

Mae Sefydliad Beth Johnson (BJF) wedi cyhoeddi ei adolygiad diweddaraf o brosiectau eiriolaeth a wnaed gan BJF dros y blynyddoedd diwethaf. Mae *Giving a Voice*, a ymchwiliwyd gan Brifysgol Salford, yn cwmpasu'r gwaith sydd wedi ei ganolbwyntio ar ddau brosiect, sef cwrdd â gwahanol anghenion pobl sydd â dementia a phobl sydd â chanser.

I lawrlwytho'r adroddiad, ewch i: www.bjf.org.uk neu i gael copi printiedig anfonwch e-bost at: angela.tunnicliffe@bjf.org.uk

### Diweddariad i fodylau craidd yr Hyb Gofal Cymdeithasol Cymru

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi diweddaru pump o'r modylau craidd ar ein Hyb Gwybodaeth a Dysgu.

Bydd hyn yn cysoni'r modylau gyda newidiadau ers eu cyhoeddi am y tro cyntaf yn 2016.

Mae'r newidiadau yn effeithio'r modylau canlynol:

- Cyflwyniad a swyddogaethau cyffredin
- Asesu a diwallu anghenion unigolion
- Plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya
- Diogelu
- Eiriolaeth
- Pobl yn yr Ystâd Ddiogeledd

Gallwch weld y modylau ar eu newydd wedd yn adran Adnoddau Dysgu o'r Hyb.

### Animeiddiad - Nodau Llesiant Cymru

Efallai y bydd gennych ddiddordeb i weld yr animeiddiad byr hwn am Nodau Llesiant Cymru y mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) wedi'i gynhyrchu gyda chymorth cydweithwyr yn y sector. Fe'i cynlluniwyd i hyrwyddo'r taflenni ffeithiau ar gyfer y Nodau a gyhoeddwyd yn ddiweddar y bu llawer ohonoch yn helpu i'w paratoi.

Mae hefyd yn cynnwys dolen i weddill adnoddau WCVA yn ymwneud â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

### **Fideos newydd gan** Gynghrair Eiriolaeth Pobl Hŷn **(OPAAL)**

Gwyliwch ffilm ddiweddaraf OPAAL i gwrdd â Rosie a Linda ei heiriolwr wrth iddynt sôn am y daith eiriolaeth canser y maent wedi bod arni. Mae'r ffilm hon, a gynhyrchwyd gyda *Getting Heard Oxfordshire* yn cyffwrdd â nifer o faterion eiriolaeth pwysig, am y berthynas eiriolaeth ac am y materion y mae pobl hŷn yn teimlo ei fod yn bwysig i weithwyr iechyd a gofal proffesiynol ddeall am eu profiad o wynebu canser.

Mae Rosie, sy'n eiriolwr ei hun ac yn gleient eiriolaeth, yn myfyrio ar sut y gall unrhyw un ohonom fod angen rhywun i siarad ar ein rhan, ac mae hi'n ddewr iawn yn wynebu'r her o gynllunio diwedd ei hoes ar ffilm. Mae OPAAL yn ddiolchgar i Rosie a Linda am rannu'r profiad hwn gyda ni, mae'n rhoi goleuni ar faes hynod bwysig o eiriolaeth pobl hŷn. Ymweld â mynwent Fairspear oedd yr eitem olaf ar restr gweithredu eiriolaeth Rosie, yn y ffilm hon rydym yn gwneud y daith honno gyda Rosie a Linda, yn ymweld â'r plot ac yn archwilio beth sy'n digwydd nesaf gyda'u perthynas eiriolaeth.

Gwyliwch a rhannwch y ffilm ddiweddaraf hon gyda chydweithwyr ac ar gyfryngau cymdeithasol, a gwyliwch y ffilmiau eraill yn y gyfres - gallwch weld Stori Rosie yma a rhannu eich syniadau gyda OPAAL ar twitter @OPAALUK.

## *Digwyddiadau*

**Hyfforddiant ar y Ddeddf Galluedd Meddyliol a Threfniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid**
16 Hydref yn Wrecsam

Bydd y cwrs hwn yn eich helpu i ddeall newidiadau diweddar i'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS) a'r angen i ddangos bod y trefniadau gofal yn gyfreithlon ac wedi'u hawdurdodi'n gywir.

Bydd y cwrs yn galluogi staff i barhau i ddilyn bwriadau gwreiddiol y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Ddeddf Hawliau Dynol: y dylai pobl sydd â llai o allu i wneud penderfyniadau gymryd rhan mor llawn â phosib, allu gwneud dewisiadau pwysig lle bo modd ac y dylai'r broses o wneud penderfyniadau ar ran rhywun arall fod yn berson-ganolog ac yn gwbl atebol.

*Cliciwch yma i gael mwy o wybodaeth ac i archebu lle ar-lein.*

**Cynhadledd Genedlaethol Eiriolaeth *Be a Force for Change* 2017**
Cynhelir cynhadledd eleni yn y NEC Birmingham ar ddydd Iau Hydref 19eg. Ymhlith y prif siaradwyr mae: - David Schneider: *Cynghorion ar gyfer Torri Trwodd ar y Cyfryngau Cymdeithasol*; Alex Ruck Keene: Eiriolaeth fel cefnogaeth ar gyfer gallu cyfreithiol; Karen Newbigging, June Sadd: Mynd y tu hwnt i'r Gyfraith: Eiriolaeth a Hawliau.

Am ragor o wybodaeth ac i archebu lle, cliciwch yma

**Deall Comisiynu a'r Proses Comisiynu ym Mhowys**
23 Hydref 2017
Cost: £20 (aelodau PAVO ), £40 (rhai sydd ddim yn aelodau PAVO/Trydydd Sector), £60 (Pawb arall/unigolion)

Bydd y cwrs yn cwmpasu:

- deall y broses gomisiynu ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol
- asesu'r meysydd lle gall darparwyr y trydydd sector gymryd rhan
- deall tendro, a sut mae'n cyd-fynd â'r cylch comisiynu

I archebu lle neu am ragor o wybodaeth, cliciwch yma.

## *Gwefannau Defnyddiol*

**Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd Age Cymru**

Mae'r wefan hon yn darparu gwybodaeth am y Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd a'r Cylchlythyrau Eiriolaeth.

Gwefan Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd Age Cymru

**Hyb Gwybodaeth a Dysgu Gofal Cymdeithasol Cymru**

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi gweithio gydag ystod o bartneriaid i ddatblygu cynllun dysgu a datblygu cenedlaethol i gefnogi gweithrediad llawn Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r Hyb Gwybodaeth a Dysgu yn cynnwys deunyddiau hyfforddi mewn gwahanol fformatau i helpu gweithwyr proffesiynol gofal cymdeithasol i weithredu'r ddeddfwriaeth yn eu gwaith o ddydd i ddydd.

Gofal Cymdeithasol Cymru

**Y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol**

Mae'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol wedi lansio ei wefan newydd. Gallwch ddod o hyd iddi yn www.bwrdddiogelu.cymru. Ewch i'w gwefan newydd i gael gwybodaeth am y Bwrdd Cenedlaethol ac i ddarllen eu blog i ddarganfod beth maen nhw wedi bod yn ei wneud.

## *Llinell Gyngor rhad ac am ddim Age Cymru*

Mae llinell gymorth Age Cymru yn rhoi cyngor diduedd, rhad ac am ddim i'ch etholwyr ar amrywiaeth o bynciau.

Efallai eu bod nhw eisiau cyngor ar faint y dylent fod yn ei dalu am ofal un o'u hanwyliaid? Neu efallai eu bod nhw eisiau gwybod a ydynt yn gymwys i dderbyn Credyd Pensiwn ac eisiau help i'w hawlio?

Gall Age Cymru helpu gyda'r holl faterion hyn, a mwy – ffoniwch ni heddiw ar: **08000 223 444**

**Cysylltwch â ni…**

- **I danysgrifio i'r cylchlythyr**
- **Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwestiynau am yr erthyglau**
- **Os oes unrhyw beth yr hoffech ei weld yn y cylchlythyr nesaf**

**E-bost** ffion.jones@agecymru.org.uk

**Ffoniwch y Rhaglen Edau Euraidd 01352 706228**

**Ceidw'r golygydd yr hawl i newid yr erthyglau a gyflwynir i'w cyhoeddi. Nid yw'r safbwyntiau yn y Cylchlythyr hwn o reidrwydd yn rhai Age Cymru.**

**Derbynnir hysbysebion ac ychwanegion gyda phob ewyllys da, ond felly nid yw'r cynnyrch neu'r gwasanaethau y cyfeirir atynt yn cael eu cymeradwyo neu eu hargymell gan Age Cymru.**

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Creu Cymru oed gyfeillgar
Creating an age friendly Wales

diverse cymru
Promoting equality for all
Hyrwyddo cydraddoldeb i bawb

age connects wales.

**Age Cymru,**
**Tŷ John Pathy,**
**13/14 Neptune Court,**
**Vanguard Way,**
**Caerdydd, CF24 5PJ**

**t: 029 2043 1555**
**e: enquiries@agecymru.org.uk**
**www.agecymru.org.uk**

Rhif elusen gofrestredig: 1128436
Rhif cwmni cofrestredig: 6837284
© Age Cymru 2017